**EOC-03-01(cof)**

**Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 21 Mawrth 2001 | |
| **Amser:** | 9.00 a.m. | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol | |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Edwina Hart (Cadeirydd) | Gwyr |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| | Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| | **Ymgynghorwyr i’r Pwyllgor** | |
| | Kate Bennett | Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| | Mashuq Ally | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |
| | Will Bee | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| | **Swyddogion** | |
| | Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol |

| | |
|---|---|
| Mike Harper | Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus |
| Alan Lansdown | Is-adran Cymorth i Ddisgyblion |
| Michael Trickey | Is-adran Cynllunio Cyllid |
| Tamlyn Rabey | Is-adran Cynllunio Cyllid |
| Russell Keith | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Richard Edwards.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**
**Eitem ar Lafar**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i'r cyfarfod a rhoddodd adroddiad am sawl mater a godwyd mewn cyfarfodydd blaenorol:

- O ran hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio, roedd y Swyddfa Gartref wrthi'n paratoi canllawiau ar gyfer Swyddogion Etholiad a fyddai'n cynnwys adran ar fynediad i bobl anabl. Disgwyliwyd y byddai hyn yn amlinellu arfer da. Yn dilyn yr etholiad cyffredinol, efallai y byddai'n bosibl ystyried enghreifftiau gwirioneddol o arfer da yng Nghymru a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar hynny. Roedd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ynghylch y mater hwn a chyn bo hir byddai'n ei godi gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Yn ystod cyfarfod llawn y Cynulliad ar 8 Chwefror, gofynnodd Lorraine Barrett i'r Cadeirydd ymchwilio i'r mater o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn cynhyrchu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg i sicrhau bod gan bob aelod o boblogaeth Cymru y wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Roedd swyddogion wedi cysylltu â'r cyrff i wneud ymholiadau ynghylch eu harferion. O'r rheini a ymatebodd, prin iawn oedd y rhai a oedd yn cyfieithu gwybodaeth i ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg onid oedd hynny'n ofynnol oherwydd natur eu gwaith. Er enghraifft, roedd Bwrdd Croeso Cymru yn cynhyrchu dogfennau mewn ieithoedd Ewropeaidd eraill at ddibenion marchnata. Ni nododd unrhyw gorff eu bod yn cyfieithu i ieithoedd lleiafrifol ethnig a siaredir yng Nghymru.
- Roedd y papur i'w nodi ar Bolisi Caffael y Cynulliad wedi deillio o ystyriaeth y Pwyllgor o gydymffurfio â chontractau yng nghyfarfod mis Ionawr. Byddai'n cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai a'r gobaith bryd hynny hefyd oedd cael cyngor cyfreithiol ar gynnydd a dichonoldeb y cynigion o fewn y papur.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Materion yn ymwneud â Hil yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Cyflwyniad: Roger McKenzie, TUC**
**Papurau: EOC-03-01 (p.1), EOC-03-01 (p.2) ac EOC-03-01 (p.3)**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad Cenedlaethol i'r cyfarfod gan ei wahodd i gyflwyno sylwadau ar yr adroddiad a gynhyrchwyd gan Roger McKenzie ar faterion yn ymwneud â hil yn y Cynulliad. Croesawodd yr adroddiad a oedd, yn ei farn ef, yn nodi arferion da ar gyfer gweinyddiaeth gyhoeddus yn fwy cyffredinol ac eang. Nododd bod Roger McKenzie wedi cytuno i gadeirio gweithgor o swyddogion a fyddai'n cyfarfod yn fisol i ystyried a gweithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad. Cytunodd hefyd i gynnal sesiynau briffio ar gyfer staff. Yn ychwanegol at y cynigion yn yr adroddiad, byddai'r sesiynau hyn yn angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion diwylliannol ehangach a fyddai'n codi. Byddai Mr Shortridge yn chwarae rhan weithredol wrth ddatblygu'r camau gweithredu yn deillio o'r adroddiad. Gobeithiai y byddai ganddo gynllun gweithredu i'w gyflwyno i'r Pwyllgor ar gyfer ei gyfarfod ym mis Gorffennaf ac roedd wrthi ar hyn o bryd yn chwilio am rywun a oedd yn meddu ar y sgiliau a'r gallu priodol i'w roi ar waith.

2.2 Wrth drafod, ymatebodd Mr Shortridge i sawl ymholiad a godwyd gan aelodau:

- Roedd Argymhelliad 9 yn cynnig y dylid rhoi terfyn ar yr arfer o recriwtio yn unol â graddau cyffredinol ac y dylid recriwtio cyflogeion newydd i swyddi penodol. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch a fyddai anawsterau ymarferol wrth weithredu hyn, nododd Mr Shortridge ei fod yn gobeithio na fyddai ond y byddai'n rhaid iddo ymgynghori â Swyddfa'r Cabinet ynglþn â'i weithredu. Roedd yn gyfrifol am sicrhau parhad busnes a dod o hyd i ffordd o sicrhau y gellid cysoni argymhellion yr adroddiad â gofynion staffio'r Cynulliad. Roedd yn benderfynol o gyflawni hyn er iddo gydnabod y gallai fod materion ymarferol i'w datrys. Pe cyfyd angen, roedd angen iddo fod yn siwr y gallai symud pobl ar fyr rybudd, er enghraifft, mewn achosion fel y sefyllfa gyfredol gyda chlwy'r traed a'r genau, heb rwysg llawn recriwtio agored. Roedd angen eglurhad yn hyn o beth.
- Roedd maint yr anawsterau a wynebwyd wrth geisio cynyddu nifer y staff o leiafrifoedd ethnig a gyflogir gan y Cynulliad yn amlwg yn y ffaith nad oedd canran bresennol o staff o'r fath yn adlewyrchu canran y boblogaeth o leiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd.
- Nid oedd yr argymhelliad y dylid uwchraddio swydd Pennaeth yr Uned Polisi Cydraddoldebau i ddod yn rhan o'r Uwch Wasanaeth Sifil o reidrwydd yn gosod cynsail ar gyfer swyddi yn ymdrin â materion trawsbynciol eraill.

2.3 Croesawodd y Cadeirydd Roger McKenzie a mynegodd ei diolch i Gyngres yr Undebau Llafur a John Monks, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, am ganiatáu iddo barhau i gymryd rhan wrth gynhyrchu ei adroddiad ar ôl iddo gael ei gyflogi gan y TUC.

2.4 Mynegodd Roger McKenzie ei fodlonrwydd o gael chwarae rhan mewn ymarfer o'r fath a dymunai ddiolch i'r rheini yn y Cynulliad y bu eu cydweithrediad yn amhrisiadwy wrth gynhyrchu'r adroddiad. Ei fwriad oedd gwneud cynnydd gwirioneddol er nad oedd hynny o reidrwydd yn golygu newidiadau cyflym. Roedd y cynllun gweithredu arfaethedig yn cynnwys blaenoriaethau tymor byr, canolig a hir ac

yn amlinellu'r tasgau allweddol y byddai eu hangen i ddylanwadu ar ffordd y Cynulliad o weithredu. Derbyniodd y byddai anghytuno o ran y dulliau allweddol o gyflawni hyn ond roedd wedi amlinellu ymagwedd systemataidd a ddylai gynnwys pawb. Gwnaed llawer o waith manwl eisoes o fewn y Cynulliad, yn arbennig wrth sefydlu ffyrdd i gynnwys cydraddoldeb o fewn y broses llunio polisïau.

2.5 Roedd angen sicrhau ymrwymiad i'r broses. Nid oedd unrhyw ddiben datgan y byddai rhywbeth yn cael ei wneud ac yna chwalu gobeithion pobl. Roedd yn angenrheidiol, pe cytunai'r Pwyllgor i'r adroddiad, iddo fod mor glir â phosibl i bob aelod o staff y Cynulliad a'r gymuned ehangach y byddai'r adroddiad yn cael ei roi ar waith. Nid oedd unrhyw oblygiadau ariannol mawr yn yr argymhellion a wnaed er y byddai angen defnyddio adnoddau ychwanegol mewn perthynas â rhai materion. Gellid diffinio hyn yn y cynllun gweithredu a'i ddatblygu mewn ysbryd partneriaeth ac ymrwymiad.

2.6 Nododd y Cadeirydd fod yr adroddiad wedi'i ysgrifennu'n dda ac yn hawdd i'w ddeall a'i bod yn falch iawn â'r gwaith a wnaed. Byddai'n rhaid wynebu'r goblygiadau o ran adnoddau er mwyn datblygu ymrwymiad y Cynulliad i gyflawni ei nodau. Byddai angen hefyd i undebau llafur y Cynulliad wneud ymrwymiad aruthrol i ddatblygu'r argymhellion.

2.7 Wrth drafod, cododd yr Aelodau rai pwyntiau penodol am yr adroddiad:

- Roedd arfer da mewn cydraddoldeb yn awgrymu y dylid gofyn yr un cwestiynau i bob ymgeisydd mewn cyfweliad;
- Roedd amheuaeth ynghylch a fyddai'n ymarferol neu'n briodol i gynrychiolydd undeb llafur fod yn bresennol ymhob cyfweliad a gynhaliwyd. Nid oedd hawl gan undebau i wneud hyn gan fod gan ymgeiswyr yr hawl i breifatrwydd. Fodd bynnag, efallai y byddai rhyw ffurf ar werthusiad allanol yn briodol. Bu Roger McKenzie yn dyst i lwyddiant defnyddio arsylwyr allanol mewn awdurdodau lleol. Y peth pwysig oedd bod yr arsylwyr wedi'u hyfforddi yn yr hyn y dylid edrych amdano, er nad oedd hyn yn golygu mai dim ond cynrychiolwyr undebau llafur allai gyflawni'r swyddogaeth hon;
- Efallai nad hyfforddiant cydraddoldeb gorfodol i Aelodau'r Cynulliad fyddai'r ffordd briodol ymlaen. Gellid pwysleisio pwysigrwydd cymryd rhan i Aelodau a'u staff a gallai'r pleidiau ei gwneud yn orfodol. Gellid hefyd nodi'n gyhoeddus a fyddai aelod yn cymryd rhan mewn hyfforddiant o'r fath ai peidio. Gellid anfon copi o'r adroddiad i arweinwyr y pleidiau i ddynodi ei bwysigrwydd. Nododd Roger McKenzie ei fod wedi cynnig y dylai hyfforddiant fod yn orfodol gan nad oedd yn cyfeirio at hyfforddiant ffurfiol yn unig. Gellid defnyddio cyfleusterau ar-lein er enghraifft a gallai hyn fod yn ffordd o ddatrys y broblem o ran pwysau amser. Byddai aelodau a fyddai'n cymryd rhan mewn hyfforddiant o'r fath yn darparu esiampl i eraill;
- Yn ogystal ag annog Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i weithredu, dylid dod o hyd i ffyrdd o sicrhau eu bod wirioneddol yn gweithredu arferion i sicrhau cydraddoldeb. Roedd Roger McKenzie yn chwilio am ffordd i atgyfnerthu ymrwymiad y cyrff hyn. Canfu Cyngres yr Undebau Llafur nad oedd yn rhydd rhag gwahaniaethu ar sail hil ei hun ac roedd felly wedi sefydlu ei grðp gorchwyl ei hun i ymdrin â hyn;
- Efallai na fyddai'r argymhelliad y dylai'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol gynnal archwiliad annibynnol yn briodol. Roedd materion tendro a chystadleuaeth i'w hystyried ac roedd angen

ystyried sut y byddai ymgynghorwyr cydraddoldeb yn cael eu hariannu a'u defnyddio hefyd;

- Roedd angen i'r Cynulliad fod yn glir ynglþn â pham nad oedd yn ddewis cyntaf fel cyflogwr i aelodau o'r gymuned ddu. Gellid cymryd camau i'w hannog i ystyried y Cynulliad fel gwahodd ysgolion i ddiwrnodau agored. Efallai y gallai swyddogion yr adran addysg gynorthwyo yn hyn o beth.

2.8 Nododd Dr Ally o'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ei fod yn llwyr gefnogi'r argymhellion a'i fod yn gobeithio y byddai rhaglen gadarn yn cael ei rhoi ar waith i'w cyflwyno. Teimlai fod y cyd-weithgor arfaethedig ar raglenni hyfforddiant cyn-derbyn yn arbennig o bwysig. Teimlai ei bod yn bwysig i'r aelodau ddod yn gyfarwydd â gofynion cyfreithiol y Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol a derbyn a deall eu cyfrifoldebau cyfreithiol. Roedd y Codau Ymarfer yn arbennig o bwysig yn hyn o beth.

2.9 Roedd Will Bee o'r Comisiwn Hawliau Anabledd o'r farn bod yr adroddiad yn cynnwys rhai elfennau a oedd yn berthnasol i bob ffurf ar gydraddoldeb. Yn benodol, dylid ymgorffori cydraddoldeb ym mhob math o hyfforddiant ac ni ddylid ei ystyried fel mater ar wahân. Teimlai Kate Bennett o'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, er bod ffocws pendant ar hil yn yr adroddiad, y byddai'r ymagweddau arfaethedig tuag at gyfweliadau, gwerthusiadau a materion yn ymwneud â chyflog yn darparu tystiolaeth gadarn ynghylch rhyw hefyd. Dylid cymhwyso'r ymagwedd hefyd i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac felly gellid lledaenu'r ymagwedd systemataidd hon drwy Gymru gyfan.

2.10 Gwahoddodd y Cadeirydd Jeff Evans, Uwch Gydlynydd Rhanbarthol yr Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) i'r bwrdd. Hysbysodd y Pwyllgor fod ei undeb yn llwyr dderbyn yr adroddiad a'i fod yn awyddus i weithio mewn partneriaeth â'r rheolwyr. Roedd arweinyddiaeth y Cynulliad yn llawer mwy blaengar nag adrannau eraill y llywodraeth a gallai ddarparu templed iddynt.

2.11 Nododd Mr Shortridge ymhellach nad ateb cyflym oedd yr argymhellion yn yr adroddiad a bod ganddo swyddogaeth arweiniol wrth sicrhau eu gweithrediad. Roedd angen profi'r argymhellion yn yr adroddiad mewn ffordd realistig, fel y rhoddwyd cychwyn arno yn y cyfarfod, ac roedd Mr Shortridge yn falch y byddai Mr McKenzie yn cadeirio'r gweithgor i gynorthwyo yn y broses honno.

2.12 Cytunodd y Pwyllgor gynnig yr Ysgrifennydd Parhaol y dylid ystyried y cynllun gweithredu yn y cyfarfod ar 11 Gorffennaf. Cynigiodd y Cadeirydd ysgrifennu at arweinwyr y pleidiau gan amgáu'r adroddiad, i drafod sut y gellir annog cyfranogiad gan aelodau ac i ofyn iddynt ymrwymo i'r adroddiad. Cynigiodd hefyd y dylai Roger McKenzie gymryd rhan yn y ford gron ar y Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Penodiadau Cyhoeddus - Cydnabyddiaeth Cadeiryddion ac Aelodau o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad**
**Papur: EOC-03-01 (p.4)**

3.1 Amlinellodd Tamlyn Rabey o Is-adran Rhaglenni Cyllid y Cynulliad y cynigion i sicrhau bod y gydnabyddiaeth a delir i'r rheini sy'n ymgymryd â phenodiadau cyhoeddus yn cael ei phennu ar sail

gyfartal. Roedd y cynigion yn cynnwys cyrff cyhoeddus gweithredol ac ymgynghorol a noddir gan y Cynulliad a chyrff NHS. Roedd gan sawl corff aelodau nas penodwyd gan y Cynulliad ond gallai'r cynigion effeithio arnynt hwy hefyd. Bwriadwyd ymgynghori ar y cynigion a nododd y papur cysylltiedig arfer cyfredol gan amlygu anghysondebau.

3.2 Barn is-adrannau noddi'r Cynulliad yr ymgynghorwyd â hwy wrth gynhyrchu'r papur oedd y dylid talu Cadeiryddion ac aelodau cyrff cyhoeddus gweithredol a noddir gan y Cynulliad ond roedd mwy o amheuaeth o ran a ddylid ei ehangu i gyrff ymgynghorol. Dylai taliadau i'r rheini ar gyrff NHS fod yn gymaradwy â chyrff cyhoeddus eraill a noddir gan y Cynulliad. Nododd y papur ganllawiau ar gyfer sut y gellid cytuno ar lefelau tâl. Nododd hefyd gynigion ar gyfer lwfansau, gan gynnwys yr awgrym y dylid talu lwfansau llawn i'r rheini nad oeddent yn derbyn cydnabyddiaeth ond y dylid ystyried perthnasedd taliadau lwfans i'r rheini a oedd yn derbyn cydnabyddiaeth yn fwy gofalus. Byddai'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 21 Mai a disgwyliwyd adroddiad terfynol erbyn diwedd mis Mehefin. Byddai'r canlyniadau a'r goblygiadau ar gyfer pob corff yn cael eu cwmpasu, ynghyd â materion cydymffurfiad cyfreithiol a fyddai'n amlygu pwerau'r Cynulliad i wneud y taliadau cytûn, y goblygiadau ariannol a chynllun ar gyfer gweithredu. Mewn rhai achosion, ni thalwyd deiliaid swyddi am fod y sefydliadau eu hunain yn elusennau cofrestredig. Byddai'n rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau o ran newid y sefyllfa hon i'r Comisiwn Elusennau.

3.3 Croesawodd y Cadeirydd y papur a'r ffaith ei fod yn nodi terfynau'r Cynulliad. Byddai ei weithredu yn annog mwy o gyfranogiad ac yn sicrhau bod y termau a'r amodau ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn fwy unffurf.

3.4 Trafododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Roedd y dadansoddiad o daliadau yn drawiadol. Byddai sicrhau cydnabyddiaeth fwy unffurf yn cynorthwyo wrth recriwtio gan y byddai ymgeiswyr mwy addas yn gwneud cais. Roedd y tasgau a'r cyfrifoldebau y disgwylir i ddeiliaid swyddi ymgymryd â hwy gan y Cynulliad yn sylweddol ac yn cynyddu wrth i waith y cyrff hyn a gofynion atebolrwydd cyhoeddus gynyddu. Dylai cydnabyddiaeth adlewyrchu hyn. Roedd swyddogaeth deiliaid swyddi anweithredol a gweithredol yn bwysig. Felly hefyd y gwahaniaeth rhwng swyddogaethau Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr, yn arbennig mewn perthynas â chyrff iechyd.
- Roedd yr opsiwn a gynigiwyd ar gyfer gwerthuso pob swydd gan ddefnyddio system gwerthuso swyddi yn ddarn sylweddol o waith ond ni ddylai hynny olygu ei bod yn synhwyrol peidio â'i ddatblygu. Byddai'n well cymryd dwy flynedd a chynnal yr ymarfer hwn yn gywir yn hytrach na dibynnu ar ddata hanesyddol. Dylid gorfodi deiliaid swyddi i ddarparu'r wybodaeth lawn am eu swyddi. Byddai'r ymarfer hwn yn cynhyrchu bandiau ar gyfer taliadau yn seiliedig ar nifer y staff, cyllideb a chyfrifoldebau. Disgrifiwyd yr opsiwn hwn fel 'opsiwn hollol deg a chynhwysfawr'. Dyma felly'r man cychwyn mwyaf priodol o safbwynt y Pwyllgor.
- Byddai'n rhaid cael pecyn cydnabyddiaeth realistig pe byddai gofyn i ddeiliaid swyddi fod yn atebol am gamau gweithredu'r cyrff yr oeddent yn benaethiaid arnynt, yn arbennig mewn perthynas â'r pwysau a'r cyfrifoldebau a ddaw i ran Cadeiryddion cyrff NHS. Nid oedd hyn yn golygu na allai amodau'r farchnad chwarae rhan yn y gydnabyddiaeth ar gyfer swyddi penodol

fel Cadeirydd Awdurdod Datblygu Cymru, ar yr amod y byddai'r rhesymau dros hyn yn amlwg. Byddai system gymharol unffurf yn bosibl o hyd.

3.5 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai'n ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad yn ei rhinwedd fel Gweinidog Cyllid. Gofynnodd i'r Clerc ddrafftio llythyr ati fel Gweinidog yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgor a'i ddosbarthu i'r aelodau gyflwyno sylwadau arno. Efallai y byddai rhan gyda'r pwyllgorau pwnc i'w chwarae wrth edrych ar swydd ddisgrifiadau pe penderfynwyd bwrw ati â'r ymarfer gwerthuso swyddi.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Cyflog Cyfartal yng Nghymru**
**Cyflwyniad: Felicity Williams, Sue Dye a Heledd Hayes, Pwyllgor Merched TUC Cymru**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd y siaradwyr gan ddatgan ei bod yn ymwybodol iawn o'r materion sydd ynghlwm â chyflog cyfartal. Lansiodd adroddiad y Comisiwn Cyfle Cyfartal, 'Just Pay', yn ddiweddar a oedd yn codi llawer o faterion perthnasol ar y pwnc hwn.

4.2 Nododd Felicity Williams, er bod 30 mlynedd ers i'r Ddeddf Cyflog Cyfartal ddod i rym, fod cyflog cyfartal yn bwnc llosg o hyd, yn arbennig yng Nghymru lle roedd merched, ar gyfartaledd, yn ennill 30% yn llai na dynion. Roedd hyn yn annheg ac yn anghyfiawn yn ogystal â bod yn anghyfreithlon. Roedd llawer o gyflogwyr yn dal i weithio yn ôl cynlluniau cyflog a luniwyd yn ystod y cyfnod pan weithiai dynion fel y prif enillwyr cyflog a phan weithiai merched am 'arian poced'. Roedd yn arbennig o bwysig i gyflogwyr gynnal archwiliadau cyflog er nad oedd unrhyw ddeddfwriaeth ar hyn o bryd i orfodi hyn. Mewn gweithluoedd ag undebau, roedd merched yn ennill 90% o gyflogau dynion ond roedd llawer i'w wneud o hyd. Roedd angen i gyflog cyfartal ddychwelyd i fod yn flaenoriaeth ar yr agenda fargeinio gyffredin. Roedd annog merched i ddod yn swyddogion undeb llafur llawn amser neu gynrychiolwyr rhan amser yn ffordd o gyflawni hyn. Roedd TUC Cymru yn awyddus i gymryd rhan. Roedd am roi taw ar y neges mai drwy ddewis yr oedd merched yn ennill llai na dynion. Roedd cymysgu swyddi yn faes o bryder penodol yn y sector cyhoeddus ac yn llwyddo i ostwng lefelau cyflog yn hytrach na'u codi.

4.3 Nododd Sue Dye fod PCS yn rhoi blaenoriaeth uchel i gyflog cyfartal. Roedd gan undebau, y Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Cynulliad a chyflogwyr oll ran i'w chwarae. Gallai cyflogwyr gydnabod y materion drwy fynd i'r afael â'r diwylliant o gyfrinachedd ynghylch cyfraddau cyflog. Gobeithiai y byddai'r Comisiwn Cyfle Cyfartal yn cynorthwyo cyflogwyr a'r undebau drwy symleiddio eu Cod Ymarfer ar gyflog cyfartal a thrwy gefnogi'r ymgyrch i wneud arolygon cyflog yn orfodol. Roedd gan y Cynulliad ran enfawr i'w chwarae wrth wneud cynnydd drwy gywiro anghysondebau a dod yn gyflogwr enghreifftiol yng Nghymru. Roedd mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu'n gadarnhaol ar gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, cyrff iechyd ac awdurdodau lleol. Cydnabu hefyd bwysigrwydd cydraddoldeb wrth ddosbarthu cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Cynigiodd y dylid dechrau ar drafodaethau gyda'r Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r Cynulliad ar ddatblygu cynllun gweithredu i annog cyflog cyfartal yng Nghymru.

4.4 Nododd y Cadeirydd ei diddordeb mewn sefydlu ymagwedd gyffredin ledled Cymru a chydnabu bwysigrwydd annog deddfwriaeth. Roedd yr Aelodau o'r farn bod cyflog cyfartal yn fater sylfaenol. Tra bod merched yn aros yn dlawd, deuai llawer o faterion eraill i'r amlwg. Dylai'r Cynulliad sicrhau bod cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn cynnal archwiliadau cyflog a gallai gynnwys gofyniad yn y cynigion arfaethedig ar gydymffurfiad is-gontractwyr â chontractau. Byddai unrhyw ferch a gymerai seibiant o'i gyrfa hefyd yn derbyn pensiwn llai. Roedd hyn yn cyfleu neges negyddol am farn cymdeithas am ferched sy'n cymryd seibiant o'r gwaith i fagu plant.

4.5 Roedd mater penodol yn codi gyda merched a oedd yn athrawon cyflenwi. Roeddent yn colli'r hawl i godiadau cyflog, pensiynau a datblygiad staff. Nododd Heledd Hayes (o Undeb Cenedlaethol yr Athrawon) bod prinder athrawon i gyfateb â swyddi gwag. Roedd yr undeb wedi sefydlu cofrestr ar gyfer y rheini a oedd am rannu swyddi fel athrawon cyflenwi. Cydnabu na ddylai athrawon cyflenwi fod o dan anfantais o ran codiadau cyflog, ond bod hynny'n digwydd. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch nifer y merched a oedd yn benaethiaid, nododd fod hyn yn broblem enfawr. Dros 15 mlynedd roedd canran y merched a oedd yn benaethiaid ar ysgolion uwchradd wedi cynyddu'n ddramatig ond nid felly'r nifer wirioneddol. O ganlyniad roedd stereoteipiau ym meddyliau disgyblion mai dyn oedd ar y brig. Nododd yr Aelodau, er bod cyflog cyfartal yn y byd addysg, bod merched yn cael eu 'hatal' ar lefel benodol. Nid oedd merched yn cyflwyno eu hunain ar gyfer lefelau uwch ac roedd llawer o ddynion a oedd yn aelodau o'r undeb o'r farn na ddylai merched gymryd rhan fel negodwyr undeb, er enghraifft.

4.6 Nododd Kate Bennett fod cyflog cyfartal yn fater byd-eang ond bod anghydraddoldebau yn llawer gwaeth yn y DU am dri rheswm: strwythurau cyflog, gwahanu swyddi a chydbwyso bywyd a gwaith. Fodd bynnag, roedd pethau pendant y gellid eu gwneud yng Nghymru. Roedd yn gadarn o'r farn y dylai arolygon cyflog fod yn orfodol. Cynigiodd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Swyddfa'r Cabinet yn datgan y byddai merched o dan anfantais ddifrifol pe na chaent eu gwneud yn orfodol. Dyma oedd barn Tasglu Cyflog Cyfartal y Comisiwn Cyfle Cyfartal, yr oedd llawer o'i aelodau yn gyflogwyr. Yn y byd addysg, gallai'r sefydliad newydd Gyrfa Cymru a'r corff newydd ELWa wneud llawer o waith i gynorthwyo yn hyn o beth. Fodd bynnag, roedd llawer i'w wneud ym maes gofal plant. Croesawodd yr awgrym o sefydlu grðp gweithredu ar y cyd ac awgrymodd y dylid cynnal trafodaethau gyda'r CBI, y Ffederasiwn Busnesau Bach ac ACAS. Byddai hi a Phwyllgor Merched y TUC yn cynnal trafodaethau cychwynnol ynghylch sut y dylai'r grðp weithredu.

4.7 Cynigiodd y Cadeirydd ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol yn cynnig archwiliad cydraddoldeb llawn a gofynnodd i'r Clerc gysylltu â TUC Cymru a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal o ran datblygu cynllun gweithredu ar y cyd. Byddai'n ymhelaethu ar hyn, gan gynnwys y goblygiadau cyfreithiol, yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin ac awgrymodd y gallai'r gwaith fwydo i argymhellion adroddiad blynyddol y Pwyllgor yng nghyfarfod llawn y Cynulliad.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Ymchwiliad Stephen Lawrence**
**Papur: EOC-03-01 (p.5)**

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem hon drwy ddatgan mai'r Pwyllgor a sbardunodd y gwaith ar

Ymchwiliad Stephen Lawrence ac mai’r Pwyllgor felly oedd yn berchen ar unrhyw adroddiad a ddeilliai ohono. Yna byddai’r Pwyllgor yn cyflwyno’r adroddiad ger bron y cyfarfod llawn ar yn gofyn am sylwadau unrhyw bwyllgor priodol arall arno.

5.2 Nododd Alan Lansdown bod yr adroddiad drafft yr oedd yn ei gyflwyno i’r pwyllgor yn cynrychioli safbwynt cytûn holl aelodau’r gweithgor addysg er iddo gymryd peth amser i’w gynhyrchu. Roedd Cadeirydd y Grðp Llywio, Helen Mary Jones, o’r farn fod yr adroddiad yn gam mawr ymlaen. Roedd am godi rhai pwyntiau ar yr argymhellion penodol:

- O ran argymhelliad 67, teimlai bod anhawster gyda’r pwyslais a roddwyd ar Addysg Bersonol a Chymdeithasol gan roi hygrededd i’r syniad mai dim ond y maes hwn o’r cwricwlwm a oedd yn berthnasol. Nid oedd y grðp wedi gofyn am arolwg llawn o’r cwricwlwm ond awgrymai’r cyflwyniad strategol y byddai oedi wrth weithredu unrhyw awgrymiadau eraill tan yr arolwg llawn nesaf ymhen pum mlynedd. Byddai arweiniad arfaethedig ACCAC yn galluogi ailstrwythuro er na fyddai ganddo rym cyfreithiol llawn yn sylfaen iddo. Ni fyddai’r trafodaethau arfaethedig rhwng ACCAC ac argraffwyr ar gyfer cynhyrchu deunydd yn benodol ar gyfer Cymru yn unigryw gan fod deunydd eisoes yn cael ei gynhyrchu ar gyfer Cymraeg.
- O ran argymhelliad 68, roedd angen trafodaethau pellach o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau hiliol, yn arbennig o ran hynt gwybodaeth a gofnodir ar ysgolion gyda phoblogaeth uchel o ddisgyblion du. Byddai gan ysgolion o’r fath restr hir o ddigwyddiadau pe byddent yn gweithredu’n gywir.
- O ran argymhelliad 69, roedd Cadeirydd y Grðp Llywio o’r farn fod gwaith Estyn yn galonogol. Roedd o’r farn ei fod yn mynd i’r afael â’r problemau ac yn cyflawni canlyniadau. Roedd y Pwyllgor yn falch y byddai rhoi lle amlwg i faterion cydraddoldeb ar draws y cwricwlwm yn cael ei ymgorffori i hyfforddiant athrawon a nododd yr angen am welliant parhaus yn y maes hwnnw.

5.3 Trafododd y Pwyllgor yr argymhelliad y dylid casglu a chyhoeddi ystadegau ar ddigwyddiadau hiliol ar lefel Ardal Addysg Lleol a’u rhyddhau i’r Cynulliad ar lefel ysgolion. Nododd y Pwyllgor ansicrwydd ynghylch beth y dylid ei gynnwys o fewn y term "Cynulliad". Mynegodd yr Aelodau amrywiaeth o safbwyntiau o ran sut y dylid cyhoeddi gwybodaeth ar lefel ysgolion yn gyffredinol, gan nodi ar y naill llaw y potensial i ystadegau o’r fath gamarwain a’r cymhelliant i guddio digwyddiadau pe cyhoeddwyd adroddiadau, ac ar y llaw arall hawl y cyhoedd i gael gwybod am berfformiad pob ysgol a’r angen i ysgolion fod yn atebol. Yn benodol nododd y Pwyllgor yr angen i dermau ystadegau o’r fath gael eu fframio’n ofalus er mwyn iddynt adlewyrchu perfformiad gwirioneddol a pheidio â chreu rhagfarn yn erbyn ysgolion lle gwelwyd lefelau uwch o ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt oherwydd poblogaeth ddu ac ethnig uwch neu am eu bod yn fwy gweithgar wrth geisio canfod ac ymdrin â digwyddiadau hiliol. Roedd angen canllawiau hefyd i athrawon ar yr hyn a gwmpesir gan ddigwyddiad hiliol er mwyn sicrhau cysondeb rhwng yr hyn a gofnodir rhwng ysgolion. Nodwyd hefyd, er gwaethaf y polisi ar gyhoeddi ystadegau, ei bod yn debygol y byddai’r wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus drwy gyfreithiau rhyddid gwybodaeth. Cytunodd y Pwyllgor bod angen rhoi sylw i’r pwyntiau hyn ac argymhellodd y dylai ystadegydd gynorthwyo’r gweithgor wrth lunio fframwaith ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

5.4 Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn falch o weld bod cyfoethogi'r cwricwlwm wedi'i nodi yn yr adroddiad. Nododd Dr Ally nad dogfen ymgynghorol oedd "Dysgu i Bawb" ond safon i ysgolion fesur eu llwyddiant wrth ymdrin â chydraddoldeb hiliol. Nododd mai dau beth gwahanol oedd cyfle cyfartal a chyfoethogi'r cwricwlwm. Mae cyfoethogi yn ymwneud â chynnwys enghreifftiau o brofiadau gwahanol hiliau a'u lle mewn hanes a chymdeithas o fewn y cwricwlwm. Cyfeiriodd hefyd at y cyfeiriad ar dudalen 12 yr adroddiad at un o gyfarfodydd y Comisiwn gyda hyfforddwyr athrawon a nododd y byddai'r Comisiwn yn cysylltu â'r sefydliadau hyfforddi yn hytrach na hyfforddwyr unigol.

5.5 Gofynnodd y Pwyllgor i swyddogion ddiwygio'r adroddiad yng ngoleuni trafodaethau'r Pwyllgor a'i ailgyflwyno i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf. Trafododd y Pwyllgor y dryswch a ddaeth i'r amlwg ynghylch perchenogaeth yr adroddiad a nododd mai'r Pwyllgor a sbardunodd yr adroddiad gan ofyn i'r gweithgor gael ei sefydlu i'w baratoi, gan "fenthyg" y swyddogion gan y Gweinidog i gyflawni swyddogaeth debyg i ddefnyddio ymgynghorwyr arbenigol. Fodd bynnag, o ganlyniad i beidio ag egluro o'r cychwyn cyntaf swyddogaeth y swyddogion a pherchenogaeth yr adroddiad, daeth nifer o anawsterau i'r amlwg yn ystod y broses. Nododd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at Banel y Cadeiryddion i ofyn am ganllawiau ynghylch sut y dylai pwyllgorau "fenthyg" swyddogion ar gyfer prosiectau o'r fath.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Cyngor Deillion Cymru: prosiect Young View**
**Cyflwyniad: Aelodau o'r grwp**
**Papur: EOC-03-01 (p.6)**

6.1 Croesawodd y Cadeirydd Vanessa Webb o Gyngor Deillion Cymru a Neil Jones, un o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y prosiect Young View. Diolchodd Vanessa i'r Pwyllgor am gytuno i dderbyn yr adroddiad. Bu gwaith y bobl ifanc â nam ar eu golwg yn werthfawr iawn i'r Cyngor. Oherwydd proffil oedran y rhan fwyaf o bobl â nam ar eu golwg, fel rheol nid ystyriwyd barn pobl ifanc a phrin oedd y data a fodolai ar yr anawsterau a wynebir ganddynt. Roedd y Cyngor wedi gweithio'n galed i sicrhau cyfranogiad 28 o bobl ifanc o bob cwr o Gymru yn y prosiect. Trafodasant eu safbwyntiau ar amrywiol faterion. Hyd yn hyn, y Cyngor a fu'n rheoli'r broses ond byddai'r bobl ifanc eu hunain yn datblygu'r prosiect yn y dyfodol ac roeddent wedi cynhyrchu eu gwefan eu hunain i gynorthwyo â'r broses. Gobeithiai y gallai'r Pwyllgor edrych am ddatblygiadau yn rhai o'r materion a godwyd yn adroddiad y prosiect.

6.2 Cyflwynodd Neil Jones y prif faterion a amlygwyd yn yr adroddiad a nododd bod annibyniaeth a rheolaeth yn ffactorau allweddol ar gyfer pobl ifanc â nam ar eu golwg. Roedd angen cyfleusterau arnynt a fyddai'n eu galluogi i weithredu eu hannibyniaeth ond roedd diffyg ymwybyddiaeth y gallai pobl ifanc hefyd ddioddef nam ar eu golwg yn broblem fawr iddynt. Ymhlith y materion a amlygwyd gan y grðp roedd:

- strwythur y system budd-daliadau. Roedd llenwi ffurflenni a sut y cynhyrchir y wybodaeth yn

broblem arwyddocaol. Yn gyffredinol, roedd taflenni a ffurflenni mewn print mân ac felly'n anodd i'w darllen a'u llenwi. Canolfannau Cynghori oedd yr unig sefydliadau a allai gynorthwyo ond, gan mai gwirfoddolwyr oedd yn gweithio ynddynt, nid oedd yr hyfforddiant i ymdrin â phobl â nam ar eu golwg o reidrwydd o safon uchel.

- Roedd mynediad i wybodaeth yn gyffredinol yn achosi problemau. Nid oedd yn bosibl darllen papurau newydd, er enghraifft, ac, er bod rhai papurau newydd yn darparu fersiynau 'llafar', nid oeddent ar gael tan ychydig ddiwrnodau ar ôl cyhoeddi'r rhifyn papur priodol.
- O ran addysg, y duedd oedd bod gan brifysgolion gyfleusterau da iawn ond nid oedd cyfleusterau ysgolion uwchradd yn foddhaol o bell ffordd. Efallai y gallai prifysgolion ddarparu hyfforddiant i ysgolion uwchradd a chynradd.
- Roedd cyflogaeth yn amlwg yn achosi anhawster mawr gyda chanlyniadau pellgyrhaeddol a oedd yn rhy fanwl i'w trafod yn y fforwm hwn. Fodd bynnag, nod yr adroddiad oedd amlygu y dylid codi ymwybyddiaeth sylfaenol o'r materion sy'n wynebu pobl ifanc.

6.3 Nododd yr Aelodau yr ymddengys bod diffyg ymwybyddiaeth o'r anawsterau hyn hyd yn oed ymhlith y rheini a oedd yn 'gwybod' am gyfle cyfartal. Yn y byd addysg, er enghraifft, ystyriwyd gweithwyr cynnal mewn ysgolion yn aml fel ffordd o ddisgyblu yn hytrach na darparu cymorth i unigolion. Efallai y gellid sicrhau bod prosiectau ieuenctid yn fwy ymwybodol o'r problemau fel y gallent gynorthwyo pobl ifanc. Roedd dadl yn mynd rhagddi ar hyn o bryd o ran p'un ai darparu addysg mewn amgylchedd ar wahân neu drwy addysg prif ffrwd sydd orau i fyfyrwyr ag anableddau. Efallai y byddai gan y Pwyllgor Addysg rai sylwadau i'w gwneud ar hynny, yn arbennig o gofio'r ffaith nad oedd unrhyw ddarpariaeth addysg arbenigol Gymraeg. Roedd materion yn codi ynghylch sut y cyflwynir gwasanaethau cynnal a sut y rhoddir hyfforddiant ymwybyddiaeth i athrawon a darlithwyr.

6.4 O ran trafnidiaeth, roedd adolygiad mawr o'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a byddai'n briodol bwydo sylwadau'r grðp i hyn. Gallai pobl ifanc fod yn gymwys i gael Lwfans Byw i'r Anabl ond efallai na fyddai hynny yn cwmpasu'r costau ychwanegol yn sgîl defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu dacsis er mwyn cynnal bywyd cymdeithasol a gwaith. Roedd yr Aelodau am wneud sylwadau i'r cyrff priodol o ran lleisio'r barnau hyn.

6.5 Croesawodd Will Bee yr adroddiad a'r prosiect a chytunodd na chynhwyswyd pobl ifanc yn aml ar yr agenda gan mai pobl hþn oedd y rhan fwyaf o bobl ag anableddau yn gyffredinol. Roedd y sefydliad Plant yng Nghymru hefyd wedi cynnal prosiect yn ddiweddar i nodi ffynonellau nawdd. Roedd y Comisiwn Hawliau Anabledd ei hun wedi rhoi tystiolaeth i'r ymchwiliad trafnidiaeth gyhoeddus ac wedi pwysleisio'r ffaith bod darparu gwybodaeth am wasanaethau trafnidiaeth yn bwysig iawn. Roedd y Mesur Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau bellach ger bron Tþ'r Cyffredin a byddai'n dod â'r rheini ag anghenion o'r fath i ysgolion prif ffrwd. Byddai'n ofynnol i awdurdodau addysg lleol ddarparu cymorth i alluogi disgyblion ag anableddau i gyflawni eu llawn botensial. Roedd hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch cynlluniau hygyrchedd ar gyfer awdurdodau addysg.

6.6 Soniodd Vanessa Webb am y camau gweithredu a gymerwyd gan y Cyngor ynghylch y materion addysg a nodwyd. Ysgrifennwyd at bob awdurdod addysg i wneud ymholiadau am hyfforddiant i

weithwyr cynnal a derbyniwyd pump ymateb yn nodi mai cymhwyster gweinyddydd meithrin oedd y safon a oedd yn ofynnol gan un ohonynt. Roedd y Cyngor yn gobeithio trefnu hyfforddiant mwy priodol. Dylid rhoi dewis i bobl ifanc o ran pa sefydliad addysgol a fynychwyd ganddynt ond byddai’n rhaid i’r penderfyniad fod yn seiliedig ar addysg prif ffrwd dda.

6.7 Cynigiodd y Cadeirydd ysgrifennu at Gadeiryddion y pwyllgorau pwnc yn argymell y dylent ystyried yr adroddiad ac yn awgrymu efallai y byddent am drefnu cyflwyniad gan y grðp. Byddai’n ystyried pa ymagwedd i’w chymryd o ran budd-daliadau drwy drafod gyda Will Bee ac yn adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: EOC-02-01 (min)**

7.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

7.2 Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm.